# Fforddiadwyedd Ynni Hydref 2024

*Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Amy Dutton (amy.dutton@citizensadvice.org.uk)*

Mae angen amddiffyn aelwydydd yng Nghymru'n well rhag prisiau ynni uchel. Mae costau ynni uchel parhaus a lleihad mewn cymorth yn golygu bod miloedd o aelwydydd yn parhau i boeni y byddant yn methu talu eu biliau ynni neu'n gorfod mynd heb bethau hanfodol y gaeaf hwn unwaith eto er mwyn gallu talu'r biliau.

- Mae prisiau ynni uwch yma i aros ac maen nhw'n achosi poendod meddwl i lawer o aelwydydd, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.
- Mae llawer mwy o aelwydydd bellach mewn dyled oherwydd eu biliau ynni ac yn ei chael hi'n anodd cael eu hunain allan o ddyled.
- Mae miloedd o bobl yn disgwyl mynd heb y gwres neu'r dŵr poeth sydd eu hangen arnynt neu i orfod hepgor prydau bwyd er mwyn gallu talu biliau ynni dros y gaeaf.
- Mae sefyllfa'n parhau i fod yn waeth ar gyfer defnyddwyr mesuryddion taliad ymlaen-llaw gan eu bod nhw'n wynebu cael eu datgysylltu'n sydyn pan na allan nhw fforddio ychwanegu credyd.

**I ddiogelu cartrefi Cymru rhag costau ynni na ellir eu fforddio:**

- ➔ Mae angen i Lywodraeth y DU gyflwyno cymorth sydd wedi'i dargedu'n well i sicrhau bod gan y rhai sydd ei angen fwyaf, gostau ynni is.
- ➔ Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiogelu cefnogaeth argyfwng i aelwydydd sydd mewn perygl o gael eu datgysylltu ac i'r rhai sydd oddi ar y grid fel rhan hanfodol o'r strwythur cefnogaeth yng Nghymru.
- ➔ Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflymu'r broses o ôl-osod defnydd insiwleiddio mewn cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n wael.

## Mae costau ynni uchel yma i aros

Er gwaethaf gostyngiad sylweddol o'u lefelau uchaf, bydd prisiau ynni'r gaeaf

hwn yn parhau i fod £500 yn uwch nag yn 2021, sef cyn yr argyfwng ynni.[1] Mae arbenigwyr yn darogan y bydd prisiau cyfanwerthu yn debygol o aros yn uwch na lefelau cyn-argyfwng am weddill y degawd.[2] Mae'n amlwg bod angen mwy o gefnogaeth – nawr ac yn y dyfodol.

Mae prisiau ynni uchel yn rhoi cyllidebau aelwydydd dan bwysau hyd yn oed yn uwch, gyda 3 o bob 5 (59%) o gartrefi yng Nghymru yn dweud eu bod yn poeni am y cap pris newydd sy'n dod i mewn ym mis Hydref (£1,717) a sut maen nhw'n mynd i fforddio'r ynni y maen nhw ei angen y gaeaf hwn. Mae'r sefyllfa'n waeth yng Nghymru gan fod gan y wlad rai o'r tai gwaethaf yng Nghymru a Lloegr o ran effeithlonrwydd ynni[3], gan wneud y cartrefi hynny'n ddrud ac yn anodd eu gwresogi, yn ogystal â bod yn fwy tebygol o fod yn llaith a chynnwys llwydni.

## Mae mwy o bobl ar eu hôl hi gyda'u biliau ynni

Mae Ofgem wedi cofnodi'r lefelau dyled uchaf erioed gyda dros £3.3 biliwn mewn dyled ynni ar draws Prydain.[4] Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cynnydd yn nifer y bobl sydd angen cymorth gan ein gwasanaethau cynghori gyda phroblemau dyled ynni, gan gynnwys trefnu cynlluniau ad-dalu a delio â gorfodaeth. Mae mwy na 4,400 o bobl wedi dod atom am gymorth gyda phroblemau dyledion ynni hyd yma eleni.

Mae'r bobl rydym yn eu helpu gyda dyledion ynni bellach yn gwario 56% yn fwy bob mis ar drydan a 36% yn fwy ar nwy nag yn 2021, gan adael llawer llai ar gyfer costau hanfodol eraill a llai i ad-dalu dyledion. Mae 49% o'n cleientiaid dyledion ynni bellach â chyllideb negyddol sy'n golygu eu bod yn debygol o fynd yn ddyfnach i ddyled na fyddant yn gallu ei had-dalu.

Mae pobl sydd ar ei hôl hi gyda biliau hefyd yn mynd i ddyled ddyfnach. Ymhlith ein cleientiaid dyled ynni, mae lefel gyfartalog y ddyled ynni wedi codi i'r swm uchaf erioed o £1516 y cartref o gymharu â £1159 yr un adeg y llynedd. Mae hyn

---

[1] Money Saving Expert, What is the energy price cap? | MoneySavingExpert, Awst 2024
[2] Cornwall Insights, New forecast warns power prices to remain elevated until late 2030s - Cornwall Insight, Gorffennaf 2023
[3] Y sgôr effeithlonrwydd canolrif yng Nghymru yw 66, sef y ffigwr isaf allan o ranbarthau Lloegr a Chymru ochr yn ochr â Swydd Efrog a Humber.
[4] Debt and Arrears Indicators | Ofgem, 28 June 2024

yn ei gwneud hi'n anoddach i lawer o aelwydydd drefnu cynlluniau ad-dalu fforddiadwy er mwyn cael eu hunain allan o ddyled a chadw i fyny â thaliadau rheolaidd.

## Effeithiau eilaidd biliau ynni uchel

Nid yw ynni yn foethusrwydd. Mae'n hanfodol bod bob cartref ag ystafelloedd â thymheredd cyfforddus, eu bod yn glanhau eu dillad gan gynnwys dillad eu plant, yn cymryd cawodydd, ac yn gallu defnyddio goleuadau ac offer electroneg. **Y gaeaf diwethaf, roedd dros chwarter o aelwydydd (26%) yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd cadw eu cartrefi'n gynnes**, gyda thenantiaid, teuluoedd â phlant, ac unigolion ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor ymhlith y rhai yr effeithiwyd waethaf arnynt.

Mae costau ynni na ellir eu fforddio yn gadael cartrefi mewn perygl o fynd i ddyled na ellir ei rheoli neu o gymryd camau eithafol sy'n golygu na allant ddiwallu eu hanghenion sylfaenol. Mae mwy na hanner (55%) o'r rhai sy'n dweud eu bod yn poeni am dalu eu biliau ynni yn dweud y byddent yn defnyddio llai neu'n diffodd eu gwres neu ddŵr poeth y gaeaf hwn er mwyn rheoli eu biliau ac mae 2 ym mhob 5 (41%) yn dweud y byddent angen torri'n ôl ar neu hepgor prydau bwyd.[5]

Mae defnyddwyr mesuryddion talu ymlaen-llaw yn parhau i fod mewn perygl sylweddol o gael eu datgysylltu. Rydym wedi gweld 2,350 o ddefnyddwyr mesuryddion talu ymlaen-llaw sy'n cael trafferth i ychwanegu credyd ers mis Ionawr. Er bod hyn 30% yn is na'r nifer a welsom yn yr un cyfnod y llynedd, mae'n dal i fod 9 gwaith yn uwch na'r un cyfnod yn 2021. Mewn ymchwil yn gynharach eleni, canfuom fod traean o ddefnyddwyr mesuryddion talu ymlaen-llaw yng Nghymru wedi cael eu datgysylltu oddi wrth eu cyflenwad ynni'r flwyddyn ddiwethaf oherwydd na allent fforddio ychwanegu credyd.[6] Mae tri chwarter, (72%) yn dweud bod hyn wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd

[5] Data arolwg yn seiliedig ar arolwg gynrychioliadol ar-lein o 2,209 o oedolion yn Mhrydain Fawr a gynhaliwyd gan Yonder Data Solutions ar ran Cyngor ar Bopeth. Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 26ain a 28ain Gorffennaf 2024 gyda sampl pwysol o 297 o oedolion yng Nghymru.
[6] Ffigurau o ddata arolwg yn seiliedig ar arolwg cynrychioliadol o 4,338 o oedolion (18+) ym Mhrydain Fawr a gynhaliwyd gan Yonder Data Solutions ar gyfer Cyngor ar Bopeth gyda sampl wedi'i gyfnerthu ar gyfer Cymru (Cyfanswm= 665 o oedolion; 227 o ddefnyddwyr mesuryddion talu ymlaen-llaw). Gwaith maes a gynhaliwyd rhwng 6ed a 18fed Rhagfyr 2023.

meddwl, a dywedodd 43% ei fod wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd corfforol.

**Er bod rheoli costau ynni uchel yn aml yn cael effeithiau negyddol uniongyrchol ar aelwyd, mae yn broblem hirdymor y mae angen ymateb tymor hir iddo.**

**I ddiogelu cartrefi Cymru rhag costau ynni na ellir eu fforddio:**

- ➔ Mae angen i Lywodraeth y DU gyflwyno cymorth sydd wedi'i dargedu'n well i sicrhau bod gan y rhai sydd ei angen fwyaf, gostau ynni is.
- ➔ Rhaid i Lywodraeth Cymru ddiogelu cefnogaeth argyfwng i aelwydydd sydd mewn perygl o gael eu datgysylltu ac i'r rhai sydd oddi ar y grid fel rhan hanfodol o'r strwythur cefnogaeth yng Nghymru.
- ➔ Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflymu'r broses o ôl-osod defnydd insiwleiddio mewn cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio'n wael.